# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 29 Mehefin 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Elin Prysor Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.

**Ymddiheuriadau** – y Cyngr. Einir Williams a Bleddyn Williams.

**2. Dewi Davies, Rheolwr Cymuned Bethesda, Heddlu Gogledd Cymru**
Siom nad oedd Dewi wedi gallu mynychu'r cyfarfod oherwyd problemau technegol, y Clerc i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf.

**3. Datgan Diddordeb**
Cyng. Linda Brown yn datgan diddordeb ar eitem 12 yr agenda – Adroddiad Partneriaeth Ogwen.
Cyngr. Walter Williams, Catrin Wager a Huw Jones yn datgan diddordeb ar eitem 13 yr agenda – cais am cyfraniad costau bws Eisteddfod gan Ysgol Llanllechid.

**4. Materion Brys**
Dim.

**5. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**6.1 YGC – Sherpa Shelters** – Nodwyd fod y sgrîn weid gael ei osod, ac mae Scottish Power wedi cadarnhau bod y gwaith ar ochr nhw wedi gael ei gwblhau. Nodwyd fod y cwmni sydd wedi gosod y sgrîn yn ymwybodol ac yn gobeithio y bydden nhw yn dod allan i'r safle yn yr wythnosau nesaf – ar y gweill.

**6.2 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** – Adroddwyd fod yr offer wedi cael ei osod ar y safle. Adroddwyd fod camdealltwriaeth rhwng y Clerc a Cyngor Gwynedd – nid oes gan Cyngor Gwynedd unrhyw record o'r Cyngor Cymuned yn gofyn am caniatad i osod yr offer yma. Fodd bynnag, cytunwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn mabwysiadwy'r offer ar gyfer pwrpas yswiriant a adolygiadau blynyddol, ond os oes gwaith cynnal a chadw, fydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am unrhyw gostau a fydd yn codi yn y dyfodol.
**6.3 Lloches Bws Lon Newydd –** Adroddwyd fod y Clerc wedi archebu'r lloches bws, ac fydd y lloches yn gael ei danfon yn syth at y contractwr diwedd mis Mehefin/dechrau Gorffennaf.
**6.4 Llwybr Parc Meurig –** Y Clerc wedi cyfarfod a Kehoe Countryside ar y safle i drafod y gwaith cynnal – y contractwr i ddod yn ôl gyda pris. Cytunwyd y bydd y Clerc gorfod gael 3 pris – y Clerc wedi trafod y gwaith gyda dau gontractwr lleol eraill. Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, y clerc i lunio drafft ac i'w ddanfon at yr grwp ffocws.
**6.5 Problemau gyda gwasanaeth ailgylchu** – Y Clerc wedi llythyru'r Adran Gwastraff a derbyniwyd ymateb. Adroddwyd fod problemau mawr gyda gwasanaeth casgliadau Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd oherwydd lefelau ethriadol o salwch staff. Nodwyd fod y Cyngor yn cymeryd camau er mwyn gwella'r sefyllfa.
**6.6 Cyfarfod Scottish Power – Toriadau trydan** – Y Clerc wedi holi Scottish Power am adborth ar ôl y cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Bethesda, dim ymateb hyd yn hyn.
**6.7 Torri gwair –**Y Clerc yn cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd dydd Llun, 3ydd o Orffennaf i drafod cytundeb newydd o gasglu'r gwair ar toriad cyntaf y flwyddyn – ar y gweill. Y Clerc i holi am gytundeb 3 blynedd.
**6.8 Oriau agor Llys Dafydd a Tan Twr** – penderfynwyd gadael Llys Dafydd a Tan Twr ar agor tan 9 o'r gloch nos hyd at ddiwedd Medi – y Cyngor i adolygu hyn dechrau Hydref. Y Clerc i hysbysebu'r oriau agor newydd, ac ei fod ar gael i'w logi.
**6.9 CCTV Stryd Fawr Bethesda –** Nodwyd fod y CCTV nawr yn 'fyw'. Y Cyng. Rheinallt Puw i holi Cyngor Gwynedd os oes modd iddynt gael dyfynbrisau ar gyfer camerau yn meysydd parcio Cae Star a Pantdreiniog.
**6.10 Llwybr Ffordd y Mynydd i Ffordd Tanybwlch** – Nodwyd fod cyflwr y llwybr yn warthus, ac fod y Cyng. Paul Rowlinson wedi cyfarfod y swyddog llwybrau, ac eu fod wedi cytuno y bydden nhw'n edrych am brisiau gan contrcatwyr i wneud y gwaith – ar y gweill.
**6.11 Canolfan Rachub –** Penderfynwyd y Cyngor y bydden yn croeso datblygiad maes parcio ar y safle hwn, mae parcio yn broblem mawr yn Rachub ar hyn o bryd. Nodwyd y posibilrwydd o gael pwyntiau gwefru yma hefyd. Y Clerc i adrodd yn ôl i'r Cyng. Paul Rowlinson.

**7. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2022-23**
Derbyn yr adroddiad ac i ymrwymo i roi sylw i'r risgiau nodwyd a chymeryd y camau priodol i'w liniaru.

**8. Ffurflen Flynyddol 2022-23**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**9. Yswiriant y Cyngor**
Penderfynwyd adenwyddu'r yswiriant gyda Zurich.

**10. Mabwysiadwy dogfennau:**
- Rheolau Sefydlog – y Clerc i addasu'r ddogfen ac ei ail gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.
- Rheoliadau Ariannol – y Clerc i gynnwys rhain ar agenda'r Is-bwyllgor Cyllid.
- Cod Ymddygiad – mabwysiadwyd y ddogfen hwn.

**11. Maes Parcio Gerlan**
Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu a dau prisiwr tir – ar y gweill.

**12. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Y cyfarfod wedi gael ei ohirio, y Clerc i gynnwys yr eitem hwn ar agenda mis nesaf.

**13. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2023'
**13.1 Ysgol Llanllechid –** Cais am cyfraniad at costau teithio Eisteddfod Llanymddyfri – Penderfwynyd rhoi cyfraniad o £500 at y costau.
**13.2 Cyng. Huw Jones**
**Gwaith Trydanol Sgwar Rachub -** Adroddwyd fod ychwaneg o waith ar Sgwar Rachub yn ddiweddar, gyda hysbysiadau munud olaf yn creu llawer o broblemau i drigolion lleol. Nodwyd hefyd nad yw'r lonydd yn cael ei gau yn y llefydd cywir, felly mae bysus a loriau yn gorfod troi rownd mewn llefydd amhosib o gul. Penderfynwyd bydd y Clerc yn llythyru Scottish Power i amlygu'r materion a godwyd.
**Cyfrif Twitter** – Codwyd y mater o godi materion lleol gyda drigiolion drwy cyfryngau cymdeithasol ac efallai creu tudalen newydd ar gyfer y Cyngor, penderfynwyd y bydd y Clerc yn parhau i ddefnyddio tudalennau Partneriaeth Ogwen am y tro.

**14. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C23/0419/13/DT**

| | |
|---|---|
| 15 Rhes Elfed, Ffordd Bangor, Bethesda | Paneli solar i'r prif ddrychiad (eiddo o fewn ardal gadwraeth).<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C23/0207/13/CR**

| | |
|---|---|
| Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |

**15. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| D W Roberts | Llafur a deunyddiau gosod parallel bars | £200.00 |
| Opus Energy | Trydan – Llys Dafydd | £53.71 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £86.12 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £101.42 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £105.52 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £148.43 |
| Dwr Cymru | Cyflenwad Dwr Llys Dafydd | £16.82 |

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog gofalwr mis Mehefin | £364.00 |
| CThEM | Treth mis Mehefin | £91.00 |
| CCTV Services | Sustem CCTV Stryd Fawr Bethesda | £35,031.10 |
| T Shaw | Torri gwair Fynwent Coetmor | £880.00 |
| Dwr Cymru | Cyflenwad Dwr Gorffwysfan | £101.78 |